Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

National Assembly for Wales
External Affairs and Additional Legislation Committee

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

23 Mawrth 2018

Dear Alun,

Diwygio cymal 11 o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth 2018 a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi a'r Pwyllgor Materion Allanol am y camau pellach y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd mewn perthynas â chymal 11 o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Ystyriodd y Pwyllgor eich llythyr ochr yn ochr â'r gwelliannau a gyflwynwyd yn ei gyfarfod ar 19 Mawrth 2018.

Rydym yn falch o weld y lefel well o ymgysylltiad rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac rydym yn ddiolchgar am y camau rydych wedi'u cymryd i roi gwybod i ni am gynnydd ar y materion hyn.

O ran y gwelliannau i gymal 11, rydym yn gwerthfawrogi parodrwydd Llywodraeth y DU i gynnig datrysiad i'r cyfyngder a wynebwn ar hyn o bryd mewn cysylltiad â'r driniaeth o'r meysydd cymhwysedd datganoledig unwaith y bydd cyfyngiadau cyfraith yr UE yn cael eu codi oddi arnynt.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

O'n safbwynt ni, er ei bod yn amlwg bod cynnydd positif wedi'i wneud, nid yw'r gwelliannau'n cyflawni'r chwe amcan a osodwyd gennym ar gyfer gwella Bil yr UE (Ymadael).

Yng nghyd-destun y gwelliannau, ffactor allweddol yn ein barn ni yw'r methiant i gydnabod rôl ar gyfer y Cynulliad i reoli pwerau y mae'n gyfrifol amdanynt. Credwn y dylai unrhyw reoliadau a osodir o dan gymal 11 diwygiedig, ac unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol a ddefnyddir i sefydlu fframweithiau mewn meysydd datganoledig, fod yn ddarostyngedig i gydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad.

Nodwn fod dadl wedi'i chynnal ar y gwelliannau cyn y tynnwyd y gwelliannau yn ôl neu cyn cynnig y gwelliannau yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Mawrth 2018. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno gwelliannau er mwyn cyflawni ein hamcanion yn yr wythnosau nesaf.

Yn eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth 2018, dywedwch:

> "The powers passing to the devolved administrations as a result of the amendment to clause 11 have never previously been held or exercised by the Welsh or Scottish governments, since the devolution settlements were created in the context of our membership of the EU".

Mae'n ymddangos bod y datganiad hwn yn sefyll ar wahân i'r gwelliannau i gymal 11, sy'n ymdrin â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, yn hytrach na phwerau llywodraethau datganoledig.

A oes modd i chi roi eglurhad ar sut y mae'r datganiad hwn yn gysylltiedig â'r gwelliannau i gymal 11?

Ar 8 Mawrth, rhyddhaodd Swyddfa'r Cabinet ddatganiad i'r wasg ("UK Government to table devolution amendments to EU Withdrawal Bill") a oedd yn cynnwys y testun canlynol:

> "[…] there would be a provision for the UK Government to maintain a temporary status quo arrangement over a small number of returning policy

areas where an agreement for a UK framework had not been reached in time for EU Exit".

Gofynnwn i chi egluro sut mae diwygiadau Llywodraeth y DU i gymal 11 yn cyfyngu ar y pŵer a ddisgrifir uchod o ran amgylchiadau lle na ddaethpwyd i gytundeb ar fframwaith y DU mewn pryd ar gyfer ymadael â'r UE.

Yn gywir,



David Rees AM, Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.